**Ymateb S4C i "Sgrîn Fach: Trafodaeth Fawr"**

**Ymgynghoriad Ofcom ar Ddyfodol Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus**

*16 Mawrth 2021*

## *Sylwadau cyffredinol*

### ***Pwysigrwydd Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus***

Rydym yn croesawu cefnogaeth Ofcom i'r gyfundrefn ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus ynghyd â chydnabyddiaeth o'i phwysigrwydd i'r DU a'i gwledydd unigol.

Mae darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn parhau i fod yn greiddiol i wylio cynnwys yn y DU. Er bod yna ystod o wasanaethau a darparwyr eraill bellach, mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus traddodiadol fel S4C yn cynnig gwasanaeth unigryw i'r gynulleidfa a dylid parhau i warchod y gallu i gyflenwi hyn at y dyfodol. S4C yw'r unig ddarlledwr sy'n cynnig gwasanaeth llawn yn y Gymraeg bob dydd o'r wythnos ac ar draws ystod o *genres* a llwyfannau. Mae hyn yn greiddiol i'r gynulleidfa ac yn holl bwysig o ran dyfodol yr iaith Gymraeg.

Rydym ni hefyd yn chwarae rhan bwysig o ran cefnogi'r diwydiant creadigol ehangach. Fel y darlledwr sy'n comisiynu'r nifer fwyaf o oriau o gynnwys o Gymru bob blwyddyn[1] mae S4C yn gonglfaen i'r sector sgrin yng Nghymru. Mae bron i 80% o'n cyllid cyhoeddus yn cael ei fuddsoddi mewn cynnwys gan gwmnïau ledled Cymru.

Yn 2019/20, roedd S4C yn gyfrifol am ardrawiad economaidd o £197.4m yn economi'r DU ac o £141.1m yng Nghymru.[2] Gyda gwariant uniongyrchol o £102.7m yn 2019-20, rydym yn cefnogi cyfartaledd o 101 o swyddi FTE o fewn S4C a 2,334 o gyflogeion a gweithwyr llawrydd yn ein cadwyn gyflenwi – gyda mwyafrif helaeth y rhain yng Nghymru.[3] Mae buddion darlledwyr cyhoeddus fel S4C felly yn bwysig nid yn unig ar gyfer y gynulleidfa ond hefyd yr economi a'r gweithlu yn ehangach. Mae gwarchod hyn yn greiddiol i ddyfodol darlledu yng Nghymru a'r DU.

### ***Moderneiddio'r system reoleiddio***

Rydym hefyd yn croesawu'r ffaith bod Ofcom yn ymafael â'r newidiadau sylweddol yn y dirwedd cyfryngau ac yn argymell moderneiddio'r system reoleiddio i adlewyrchu hyn. Mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eisoes ar y daith o drawsnewid i fod yn ddarparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ac nid yw S4C yn eithriad i hyn.

Sefydlwyd S4C fel darlledwr gwasanaeth cyhoeddus gyda phwrpas unigryw i ddarparu gwasanaeth teledu yn yr iaith Gymraeg. Yn sgìl yr Adolygiad Annibynnol o S4C a gyhoeddwyd yn 2018, cytunodd Llywodraeth y DU i ddiwygio remit statudol S4C i fod yn ddarparwr cynnwys Cymraeg ar deledu, ar-lein a thrwy unrhyw dechnoleg arall.

Mae S4C bellach wedi esblygu o fod yn ddarlledwr sianel deledu i fod yn ddarparwr gwasanaethau cyfryngau ar draws amryw o lwyfannau drwy'r DU. Tra'n parhau i gynnal y

---

[1] Yn 2019, cynhyrchodd y BBC 629 awr ac ITV 332 awr o raglenni lleol i Gymru (Cyfryngau'r Genedl 2020: Adroddiad Cymru (Ofcom)) o'i gymharu â 1,664 awr gan S4C.
[2] Ymchwil Ardrawiad Economaidd S4C (Arad Research, 2021)
[3] ibid.

sianel deledu, rydym wedi datblygu ein chwaraewr S4C Clic, ehangu Hansh (ein brand ar-lein i bobl ifanc) a datblygu gwasanaeth newyddion digidol ein hunain am y tro cyntaf.

Mae S4C wedi chwarae rhan bwysig yn y gwaith o normaleiddio'r Gymraeg. Mae hi'n hanfodol, er mwyn cadw'r Gymraeg yn rhan o fywyd pob dydd pobl iau a chenedlaethau'r dyfodol, bod S4C yn dosbarthu cynnwys yn y gofod digidol a bod y cynnwys hwnnw'n hawdd i'w ddarganfod. **Mae'r byd digidol yn ofod sy'n cynnig mwy o ddewis nag erioed ac mae cynnwys Saesneg yn domineiddio'r llwyfannau mwyaf poblogaidd.** O ystyried hyn i gyd, mae'r her o godi ymwybyddiaeth o gynnwys Cymraeg, a chael pobl iau i ymwneud ag e trwy gyfrwng y Gymraeg, yn enfawr.

Yn y dyfodol, mi fydd S4C am ymateb i'r her yma drwy gynyddu ei buddsoddiad mewn cynnwys digidol ac aml-blatfform yn sylweddol a sicrhau bod y cynnwys ar gael ar ystod ehangach o lwyfannau.

Er mwyn sicrhau bod ein buddsoddiad mewn cynnwys digidol yn effeithiol ac yn gwneud y defnydd gorau o arian cyhoeddus, mae'n holl bwysig bod y fframwaith rheoleiddio yn sicrhau bod y gynulleidfa'n medru darganfod a mwynhau'r cynnwys hwnnw yn hawdd.

**Rydym felly'n croesawu argymhellion Ofcom i foderneiddio'r ddeddfwriaeth i sicrhau argaeledd ac amlygrwydd digonol i ddarparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ar lwyfannau digidol. Fel rhan o hyn, credwn y dylai darparwyr cynnwys yn ieithoedd brodorol y DU gael lefel uchel o amlygrwydd ar draws platfformau a dyfeisiau – fel arall, mae yna berygl go iawn na fydd yr ieithoedd yma'n weladwy ymhlith yr holl ddewis o gynnwys Saesneg.**

**Rydym hefyd am bwysleisio'r brys sydd yna i gyflwyno'r newidiadau, er mwyn cadw i fyny gyda datblygiadau technegol ac ymddygiadau defnyddwyr.**

## *Ymateb i gwestiynau'r Ymgynghoriad*

***Cwestiwn 1:* Ydych chi'n cytuno y dylai fframwaith rheoleiddio newydd ar gyfer darparu cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus gefnogi dull cyflwyno mwy hyblyg, 'niwtral o ran gwasanaeth', sy'n canolbwyntio mwy ar ganlyniadau?**

Rydym yn cytuno bod angen fframwaith mwy hyblyg yn y byd ar-lein sy'n 'niwtral o ran gwasanaeth'. Er enghraifft, ar hyn o bryd mae Ofcom yn gosod cwota am raglenni newyddion i'n sianel deledu sy'n seiliedig ar nifer o oriau, gan gynnwys rhai sy'n ymddangos yn yr oriau brig. Wrth edrych i'r dyfodol, rydym am fuddsoddi mwy yn ein gwasanaeth newyddion digidol, gan gynnwys lansio app newyddion, fydd yn targedu cynulleidfaoedd iau. Fel rhan o'r gwaith yma, byddwn yn pecynnu newyddion ar ffurf clipiau fideo ffurf-fer ar gyfryngau cymdeithasol a'r app, gan gynnig 'newyddion yn torri' ar draws y dydd. Felly bydd angen i unrhyw fetrigau i'r dyfodol adlewyrchu natur y math yma o wasanaeth, yn hytrach na mesur oriau ac oriau brig yn unig.

***Cwestiwn 2:* Ydych chi'n cytuno â'n cynigion ar gyfer fframwaith atebolrwydd clir?**

Rydym yn cytuno â'r awgrym y dylai darparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus gyflwyno eu cynlluniau eu hunain ar gyfer darparu cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus, gan adlewyrchu natur y gwasanaethau maent yn eu cynnig, ond bydd angen trafodaeth bellach ar y math o fetrigau y byddai Ofcom yn disgwyl eu gweld. Credwn fod angen datblygu fframwaith newydd sy'n gymesur, yn ymarferol i'w weithredu ac wedi'i ddylunio i sicrhau bod amcanion cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn cael eu gwireddu yn y byd ar-lein.

***Cyd-destun i'n hymateb i gwestiynau 3 a 4***

**Rydym yn croesawu'n fawr argymhellion Ofcom i ddiwygio'r ddeddfwriaeth bresennol i sicrhau amlygrwydd ac argaeledd i gyfryngau gwasanaethau cyhoeddus yn y byd ar-lein.** Cyfeiriwn at ein sylwadau agoriadol uchod, sy'n pwysleisio'r pwysigrwydd o wneud cynnwys Cymraeg yn amlwg ac yn hawdd i'w ganfod ynghanol cymaint o ddewis o gynnwys Saesneg. Mewn ymchwil a gynhaliwyd gennym yn ddiweddar gyda grwpiau ffocws, un o'r prif negeseuon gan y grwpiau oedd yr angen i chwaraewr S4C fod ar gael ar setiau teledu clyfar. Heb hyn, mae ein cynnwys ar-alw yn anweledig i lawer o'r gynulleidfa. Mi ddylai chwaraewr S4C fod ar gael ar yr holl setiau teledu clyfar fel gofyniad safonol.

Cyfeiriwn hefyd at y ddogfen sydd wedi ei chyflwyno ar y cyd gan S4C a'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill ('*Joint PSB submission on prominence, inclusion and fair value*') ac sydd wedi ei chyhoeddi ar wefan Ofcom mewn cysylltiad â'r Ymgynghoriad.[4] Mae hon yn cynnwys cynigion penodol am sut y gallai fframwaith rheoleiddio ar gyfer amlygrwydd ac argaeledd gael ei lunio yn y dyfodol.

Mi ddylai'r fframwaith argaeledd ac amlygrwydd ymestyn nid yn unig i blatfformau perthnasol ond i ddulliau newydd o gyfleu fideo sy'n debygol o ddod yn boblogaidd, e.e.

---

[4] https://www.smallscreenbigdebate.co.uk/__data/assets/pdf_file/0027/208818/psb-submission-broadcasters.pdf

*Ultra HD*, yn yr un modd ag y cafodd gofod HD ei neilltuo i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus pan lansiwyd ef yn wreiddiol ar DTT.

Yn ogystal, **hoffem i Ofcom ystyried cynnig gwahanol lefelau o amlygrwydd daearyddol mewn byd digidol, fel sydd eisoes yn bodoli gydag EPGau teledu.** Yn achos S4C, mae yna werth gwasanaeth cyhoeddus penodol i'n cynnwys i ddefnyddwyr yng Nghymru ac mi ddylai'r cynnwys hwnnw fod yn hawdd ei ganfod yng Nghymru.  Ar y platfformau hynny lle mae'n bosib adnabod lleoliad y defnyddiwr, gellid amrywio trefn y gwasanaethau ar y rhyngwyneb defnyddiwr ac mi fyddem yn argymell rhoi lefel uwch o amlygrwydd i chwaraewr S4C yng Nghymru.

I ateb cwestiynau penodol Ofcom:

***Cwestiwn 3:* Beth ddylid ei gynnwys yng 'nghynnig' y cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus?**

Mae sefyllfa S4C ychydig yn wahanol i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill. Mae gan S4C ei chwaraewr ei hun - S4C Clic - sy'n cynnwys ffrydio'r sianel deledu yn fyw, dal-i-fyny ar ein holl raglenni teledu, peth cynnwys wedi ei ffrydio ar-lein yn unig (e.e. chwaraeon byw), bocs sets (newydd ac o'r archif) a deunydd sydd ar gael yn unig neu yn bennaf ar-lein (e.e. Hansh a Walter yn Cyflwyno).

Yn ogystal, mae cynnwys S4C ar gael ar yr iPlayer, sy'n cynnig ffrydio cydamserol o'r gwasanaeth teledu a dal-i-fyny ar ein rhaglenni teledu, ar wahân i rai eithriadau lle nad yw hawliau'n caniatáu hynny. Rydym yn falch bod y gynulleidfa'n gallu gwylio'n cynnwys ar iPlayer neu ar S4C Clic yn ôl eu dewis, ac mae'r iPlayer yn ddi-os wedi denu cynulleidfa newydd i gynnwys S4C. Mae'n blatfform amlwg a phoblogaidd sy'n galluogi'n cynnwys i fod ar gael ar ystod eang iawn o blatfformau a dyfeisiau, ac mae hynny'n rhywbeth i'w groesawu.

O dan ein partneriaeth gyda'r BBC, bydd ein cynnwys yn parhau i fod ar gael ar yr iPlayer. Fodd bynnag, wrth inni ddatblygu S4C Clic, bydd y gwahaniaeth rhwng y ddau wasanaeth yn cynyddu i'r dyfodol er mwyn cyrraedd y gynulleidfa ehangaf posib. Ein cynllun yw i ddatblygu S4C Clic yn gyrchfan i amrywiaeth ehangach o gynnwys Cymraeg, gan gynnwys Newyddion digidol, S4C Lleol, deunydd ffurf-fer/ffurf ganolig a chynnwys addas gan bartneriaid allanol. Bydd y data gasglwn ni drwy S4C Clic yn ein galluogi i farchnata a theilwra cynnwys wedi ei dargedu at y gynulleidfa yn ôl arferion gwylio.

I gyd-fynd â'r buddsoddiad yn ein chwaraewr, rydym am sicrhau bod S4C Clic ar gael ar yr holl brif blatfformau lle bydd chwaraewyr y darparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus eraill ar gael. Gan fod ein hadnoddau'n gyfyngedig, bydd angen inni flaenoriaethu'r gwariant yma ac ni allwn warantu y byddwn ar gael ar bob fersiwn o bob platfform posib.

Felly yn y ddogfen ar y cyd â'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill, rydym wedi awgrymu bod y gyfundrefn reoleiddio newydd yn berthnasol i S4C Clic yn ei gyfanrwydd, ac eithrio'r ffaith y dylai S4C gael yr opsiwn i fod ar gael ar rai platfformau drwy'r iPlayer yn unig. Yn ymarferol, byddwn yn dewis rhoi S4C Clic ar yr holl blatfformau mwyaf poblogaidd ar gyfer defnyddio gwasanaethau clyweledol.

***Cwestiwn 4:* Yn eich barn chi, pa opsiynau y dylem eu hystyried o ran argaeledd cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus?** (Yn Saesneg: "***What options do you think we should consider on the terms of PSM availability?*"**)

Rydym yn cytuno gyda'r telerau a awgrymwyd yn y ddogfen a gyflwynwyd ar y cyd i Ofcom gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus.[5] Mae hwnnw'n gofyn am '*regulated Commercial PSB Offer*' os na ellir cyrraedd cytundeb gyda'r platfform ond, fel y nodir yn y ddogfen, byddai angen cymhwyso hwnnw ar gyfer S4C Clic. Y prif amrywiad a ragwelwn yw y dylai holl gynnwys S4C Clic ddod o fewn y telerau yma, yn yr un modd â holl gynnwys yr iPlayer, yn hytrach na'i gyfyngu i gynnwys a ddarlledwyd yn ddiweddar ar deledu.

**Mae cael telerau wedi eu rheoleiddio yn arbennig o bwysig i ddarparwr iaith leiafrifol fel S4C, yn hytrach na gorfod dibynnu ar bŵer negodi gyda chwmnïau byd-eang sy'n rheoli'r prif blatfformau**. Cytunwn fod angen cynnig gwerth teg i ddarparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus am eu cynnwys, gan gynnwys y telerau canlynol:

***Amlygrwydd**:* fel y nodir uchod, mae sicrhau amlygrwydd i wasanaethau ar-alw darparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn hollbwysig a, heb hynny, byddai buddion y gyfundrefn cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn cael eu tanseilio.

***Pecynnu'r gwasanaeth:*** y darparwr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ddylai fod â rheolaeth dros gynnwys a diwyg eu gwasanaeth, yn hytrach na bod y platfform yn gallu pecynnu darnau unigol o gynnwys yn ôl eu dewis nhw a heb gydnabod brand y darparwr.

***Data:*** mae'r gallu i gasglu a defnyddio data yn hollbwysig er mwyn galluogi darparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus i ddeall eu cynulleidfa a chynnig ac argymell cynnwys yn ôl eu chwaeth ac anghenion. Y darparwyr yn hytrach na'r platfformau ddylai fod yn berchen ar y data hwn, gyda'r hawl i'w ddadansoddi er mwyn gwella'u cynnig a'u cynnwys drwy gael gwell dealltwriaeth o'r gynulleidfa.

***Incwm hysbysebu:*** gyda'r disgwyliad i'r incwm hysbysebu o deledu llinol ostwng dros y blynyddoedd nesaf, mae angen inni leihau effaith hynny drwy gynyddu'r incwm hysbysebu a nawdd o wasanaethau digidol. Rydym yn pryderu bod gan nifer o'r platfformau byd-eang delerau ac amodau safonol sy'n caniatáu iddynt gadw canran sylweddol o unrhyw incwm hysbysebu sy'n deillio o gynnwys ar eu platfform. Mae angen telerau i reoleiddio hyn er mwyn sicrhau bod darparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn medru cynnal eu hincwm hysbysebu a nawdd yn y byd digidol er mwyn parhau i fuddsoddi mewn cynnwys o safon.

Yn olaf, tra bod angen moderneiddio'r ddeddfwriaeth am argaeledd ac amlygrwydd ar blatfformau newydd, mae angen hefyd i gadw'r gofynion presennol ar gyfer gwasanaethau teledu am y dyfodol rhagweladwy. Er y cynnydd mewn gwylio ar-lein, mae yna ddisgwyliad i wylio teledu llinol barhau am flynyddoedd i ddod, gyda theledu daearol digidol ('DTT') yn parhau i fod yn blatfform poblogaidd, fel gwasanaeth sydd ar gael am ddim i'r gynulleidfa a gydag argaeledd daearyddol eang. Gan fod gwasanaethau llinol am barhau i fod yn ffordd bwysig i'r gynulleidfa fwynhau gwasanaethau darlledu cyhoeddus, credwn fod angen parhau

[5] https://www.smallscreenbigdebate.co.uk/__data/assets/pdf_file/0027/208818/psb-submission-broadcasters.pdf

â'r gofynion rheoleiddio am amlygrwydd ac argaeledd y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar blatfformau llinol, yn cynnwys DTT.

***Cwestiwn 5:*** **Beth yw'r opsiynau ar gyfer cyllido cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol, ac a oes gwersi y gallwn ni eu dysgu o ddulliau gweithredu gwledydd eraill?**

Dydyn ni ddim am gynnig barn ar gyllido cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus y DU yn gyffredinol, ond am nodi bod cefnogaeth o arian cyhoeddus yn angenrheidiol i S4C. Fel darparwr cyfryngau yn yr iaith Gymraeg, ni fyddai S4C yn medru goroesi yn y farchnad fasnachol ac felly mae yna ymrwymiad mewn statud i ariannu S4C fel rhan o gefnogaeth Llywodraeth y DU i ieithoedd brodorol y DU.

Mae S4C yn cael ei hariannu'n bennaf o ffi'r drwydded ar hyn o bryd, a bydd yn cael ei hariannu'n llwyr o ffi'r drwydded o 2022 ymlaen, ar wahân i rywfaint o incwm masnachol. Mae gan Ysgrifennydd Gwladol DCMS ddyletswydd statudol i sicrhau bod S4C yn derbyn arian digonol er mwyn darparu ei gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r broses o benderfynu ar lefel ariannu cyhoeddus am 2022 – 27 wedi dechrau ac rydym yn ddiweddar wedi cyflwyno cais i'r Ysgrifennydd Gwladol am lefel ein hariannu am y cyfnod yma.

Rydym hefyd yn chwilio'n barhaus am ffynonellau ychwanegol o incwm er mwyn cynyddu'r buddsoddiad mewn cynnwys Cymraeg, gan gynnwys:

***Incwm hysbysebu a nawdd****:* fel y nodir uchod, rydym yn archwilio ffyrdd newydd i gynyddu'r incwm o'n gwasanaethau digidol yn sgil y cwymp disgwyliedig mewn incwm o'r gwasanaeth llinol. Felly mae'n bwysig cael fframwaith rheoleiddio sy'n sicrhau telerau teg i ddarparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ar blatfformau digidol fel nad yw'r incwm a dderbyniant yn cael ei erydu gan delerau safonol y platfformau.

***Cronfeydd penodol****:* credwn fod yna dal le i'r Llywodraeth gefnogi anghenion neu fylchau penodol yn narpariaeth cyfryngau'r DU drwy sefydlu cronfeydd arbennig. Er enghraifft, sefydlwyd y Gronfa Cynnwys Cynulleidfaoedd Ifanc (YACF) yn 2019 er mwyn hybu faint o gynnwys gwreiddiol i blant a phobl ifainc sy'n cael ei gynhyrchu yn y DU. Mae S4C wedi bod yn llwyddiannus mewn wyth cais i'r gronfa, gan gydweithio â darlledwyr eraill yn y DU.

***Credydau treth****:* mae'r Llywodraeth hefyd wedi cynnig ysgogiad i gwmnïau greu cynnwys yn y DU lle mae yna angen neu werth penodol, drwy roi credydau treth ar wariant cynhyrchu e.e. ar gyfer animeiddio, cynnwys plant a drama a chynnwys o werth uchel. Dylid nodi bod nifer o'r credydau treth hyn sydd eisoes mewn bodolaeth wedi eu hanelu at gynyrchiadau gyda chyllidebau llawer uwch na rhai mewn ieithoedd brodorol fel y Gymraeg. Fodd bynnag, pe byddai modd creu categori newydd o gynnwys sy'n gymwys am gredydau treth, sef cynnwys mewn ieithoedd brodorol y DU, credwn y gallai hyn wneud gwahaniaeth sylweddol. Yn ogystal â chynyddu ansawdd a swmp y cynnwys yn yr ieithoedd hyn, gallai fod yn hwb economaidd a denu buddsoddiad mewn ardaloedd sy'n tueddu i fod yn gymharol ddifreintiedig.

***Cwestiwn 6:* Beth yw eich barn chi am y cyfleoedd i gydweithio rydyn ni wedi cyfeirio atyn nhw?** (Hefyd yn Saesneg: ***Are there other opportunities or barriers we haven't identified?***)

Mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, er yn cystadlu am gynulleidfaoedd, hefyd wedi hen arfer â chydweithio â'i gilydd mewn nifer o feysydd lle mae yna fuddiannau clir o wneud hynny. Mae S4C hefyd yn gyson yn chwilio am gyfleodd i bartneru gyda darlledwyr a sefydliadau eraill, lle mae'n gwneud synnwyr ac o fudd i'r gynulleidfa.

Ers y cychwyn, mae S4C wedi cael partneriaeth agos gyda'r BBC, ac mae'r berthynas honno wedi esblygu ers i S4C ddechrau cael ei hariannu drwy ffi'r drwydded. Er enghraifft, mae cynnwys S4C ar gael ar yr iPlayer ers 2014 (cynnwys byw a dal-i-fyny); rydym wedi arloesi a datblygu systemau cyd-gynhyrchu i ffilmio gefn-wrth-gefn yn Gymraeg a Saesneg ac mae hyn wedi arwain at gydweithio ar sawl cyfres lwyddiannus gyda BBC Cymru gan gynnwys Y Gwyll/*Hinterland*, Un Bore Mercher/*Keeping Faith* a Craith/*Hidden*; ac yn ddiweddar rydym wedi trosglwyddo ein gweithgareddau darlledu a thechnegol i'r BBC, drwy gyfuno gweithgareddau'r ddau ddarlledwr yn Sgwâr Canolog, Caerdydd er mwyn creu arbedion.

Yn ogystal rydym yn cydweithio gydag ITV Cymru – e.e. ar gynllun i ddatblygu newyddiadurwyr digidol i'n gwasanaeth pobl ifanc Hansh Dim Sbin – ac wedi cyd-gomisiynu cyfres ffeithiol/adloniant gyda Channel 4. Mae S4C hefyd wedi arwain ar gynlluniau gyda'r darlledwyr eraill i ddatblygu sgiliau o fewn y sector yng Nghymru.

Y tu hwnt i'r darlledwyr cyhoeddus traddodiadol, mae S4C hefyd yn arloesi er budd y gynulleidfa Gymraeg drwy gydweithio efo partneriaid ehangach. Mae ein partneriaeth newydd gyda Chwmni Golwg i gyhoeddi a churadu newyddion fel rhan o'n gwasanaeth digidol newydd Newyddion S4C yn cynnig llwybr newydd i luosogrwydd newyddion annibynnol yn y Gymraeg. Ac mae'n partneriaeth ni gyda Teli Môn i alluogi creu cynnwys lleol yn y Gymraeg ar gyfer cymunedau hefyd gyda'r potensial i gynnig darpariaeth cyfryngau cyhoeddus arloesol gydag ardrawiad pellgyrhaeddol ar y Gymraeg a'r sector yng Nghymru.

Gyda materion technegol, mae datblygiadau mawr dros y blynyddoedd diwethaf wedi bod yn gyfuniad o gydweithio rhagweithiol rhwng llywodraeth, rheoleiddiwr, darlledwyr a gwneuthurwyr e.e. lansio teledu digidol, lansio Freeview, HD a symud o analog i ddigidol. Mae'n debyg iawn y bydd angen y cydweithio yma yn y dyfodol e.e. ar Ultra HD, a byddem yn barod i chwarae rhan yn hyn.

***Cwestiwn 7:* Beth yw eich barn am y cyfleoedd ar gyfer darparwyr newydd cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus?**

Rydym yn cyfyngu ein sylwadau isod i ddarpariaeth yn y Gymraeg, ond hoffem wneud pwynt cyffredinol na ddylai unrhyw benderfyniad i ychwanegu at nifer y darparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus fod ar draul rhoi amlygrwydd i ddarparwyr sydd eisoes yn bodoli.

Rydym yn nodi sylwadau Ofcom:

“7.17 Yn y pen draw, efallai na fydd yn bosibl i’r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus presennol gysylltu â phob cynulleidfa ar-lein ac ar draws gwasanaethau teledu a ddarlledir. O ystyried yr her hon, gallai’r system cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol elwa ar gynnwys darparwyr newydd sy’n cynnig cynnwys ychwanegol, ochr yn ochr ag ehangder y cynnwys sy’n cael ei ddarparu gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus presennol.”

Mae S4C yn ymwybodol iawn o’r her yma ac yn datblygu cynlluniau er mwyn ymestyn tu hwnt i’r gynulleidfa draddodiadol am gynnwys Cymraeg a cheisio cysylltu â chynulleidfaoedd o bob oedran ar draws amryw blatfformau. Mae’n holl bwysig ein bod yn defnyddio’r arian a gawn o ffi’r drwydded i ymestyn ein darpariaeth a chyrhaeddiad yn y modd yma - mae hwn yn fuddsoddiad cyhoeddus yn nyfodol yr iaith Gymraeg ac o ran cefnogi'r economi a swyddi yn y cymunedau ar draws Cymru.

Mae Ofcom yn cyfeirio at ddarparwyr megis Sky a Discovery sydd bellach yn gwneud cyfraniad sylweddol i’r arlwy cyfryngau yn y DU, ond mae’r sefyllfa’n dra gwahanol yng nghyd-destun cynnwys Cymraeg. Mae yna gyfrifoldeb unigryw ar S4C, o ystyried ei remit diwygiedig a’r lefel ariannu cyhoeddus, i fod yn flaenllaw i ddarparu cynnwys sy’n creu ymgysylltiad â chynulleidfaoedd iau, i wneud cyfraniad hanfodol at ffyniant y Gymraeg i’r dyfodol ac i gefnogi’r economi yng Nghymru drwy ei gwariant sylweddol gyda’r sector annibynnol yng Nghymru.